

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 48/2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o'r Cynlluniau Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol: Cyfnod Treialu Cadarn

Crynodeb Gweithredol



Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o'r Cynlluniau Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol: Cyfnod Treialu Cadarn

Crynodeb Gweithredol

Duncan Holtom gyda Sarah Lloyd-Jones, Yr Uned Pobl a Gwaith

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Starkey

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays Caerdydd

CF10 3NQ

02920 826734

joanne.starkey@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-1-4734-0123-5

© Hawlfraint y Goron 2013

Rhestr o acronymau

ALN	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ALNCo	Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
IDP	Cynllun Datblygu Unigol
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
PCP	Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolyn
PWU	Uned Pobl a Gwaith
QAS	System Sicrhau Ansawdd
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
SENCo	Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig
SIMS	System rheoli gwybodaeth ysgolion
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
LIC	Llywodraeth Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Nodau ac amcanion yr astudiaeth	6
3. Ymagwedd a dulliau gweithredu	8
4. Rhoi'r Cyfnod Treialu Cadarn ar Waith	9
5. Tystiolaeth o'r cyfnod treialu cadarn	14
7. Llyfryddiaeth.....	22

1. Cyflwyniad

Y Cynlluniau Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol

1.1. Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Yn 2009 sefydlwyd pedwar cynllun peilot fel rhan o raglen o ymchwil weithredu â'r nod o hysbysu'r fframwaith statudol a'i ddiwygio. Sefydlwyd y cynlluniau peilot er mwyn mynd i'r afael ag elfennau penodol o'r broses ddiwygio, fel a ganlyn:

- peilot A, i ddatblygu a pheilota model ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Caerffili a Sir y Fflint);
- peilot B, i ddatblygu a pheilota model rhyngddisgyblaethol ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dwys neu gymhleth (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Thorfaen);
- peilot C, i ddatblygu a pheilota model ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn ddwys neu'n gymhleth (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro a Thorfaen);
- peilot D, i ddatblygu rôl y Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig / Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (SENCo/ALNCo) (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd).

1.2. Cynhaliwyd cyfnod datblygu cychwynol y peilot rhwng mis Medi 2009 a Gorffennaf 2011 ac yna ym mis Hydref 2011, ymestynnwyd y peilot am flwyddyn ychwanegol. Yn dilyn hyn, rhwng mis Chwefror 2012 a 20 Gorffennaf 2012, aeth yr awdurdodau lleol peilot ati i gynnal 'cyfnod treialu cadarn' (sef testun y gwerthusiad hwn), â'r nod o dreialu ymagwedd 'system gyfan' a oedd yn cynnwys pob elfen o'r gwaith a ddatblygwyd gan y prosiectau peilot.

Byddai hyn yn cynnwys proses cynllunio datblygu unigol (IDP), yn cwmpasu:

- dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn;

- offeryn ar-lein (*Planning Together*), sy'n hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r IDP, er enghraifft drwy hwyluso prosesau cyfathrebu rhwng y rheiny sy'n cyfrannu at yr IDP,
- yr IDP ei hun, cynllun gweithredu ac allbwn allweddol y broses,
- y system sicrhau ansawdd (yn cynnwys tair rhan - map darpariaeth, dulliau mesur canlyniadau a dulliau mesur capasiti);
- rôl yr ALNCo/SENCo wrth gydgysylltu prosesau cynllunio'r IDP;
- trefniadau ymgysylltu â rhieni/datrys anghydfod (LIC, dogfen heb ei chyhoeddi).

2. Nodau ac amcanion yr astudiaeth

2.1. Roedd gan yr astudiaeth naw amcan, sef:

- cefnogi'r cynlluniau peilot i ddefnyddio gweithdrefnau monitro a hunanwerthuso ac olrhain cynnydd y cynlluniau peilot;
- cefnogi'r cynlluniau peilot drwy chwarae rôl y 'cyfaill beirniadol';
- cynnal astudiaeth ymchwil weithredu ar brofion cadarn o'r broses IDP, a hynny mewn dull 'system gyfan';
- adolygu'r hunanwerthusiadau a rhoi barn annibynnol ar weithrediad ac effaith y cynlluniau peilot;
- dylunio a gweithredu dull o gasglu tystiolaeth oddi wrth bobl broffesiynol, plant a phobl ifanc ag ALN, eu rhieni a'u gofalwyr a rhanddeiliaid eraill y mae disgwyl y bydd eu gwaith yn newid o ganlyniad i'r peilot;
- datblygu dull o asesu'r sefyllfa wrthffeithiol a grëwyd gan gynlluniau peilot B a C;
- datblygu a gweithredu ymchwil ar lefel y rhaglen sy'n tynnu'r cynlluniau peilot at ei gilydd ac yn ymchwilio i'w cydlyniant a'r gwersi ehangach am weithredu'r system;
- asesu'r cyfraniadau y mae'r cynlluniau peilot wedi'u gwneud wrth gyrraedd nodau'r agenda ddiwygio ehangach;
- adolygu'r gwaith cyffredinol o reoli a gweithredu'r cynlluniau peilot a nodi arferion da y gellir eu defnyddio i hysbysu gwaith gweithredu yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys yr agweddau ymarferol ar ddarparu yn ogystal â dadansoddiad cost a budd.

2.2. Er bod yr astudiaeth wedi mynd i'r afael â phob un o'r amcanion, roedd y broses beilota gyfyngedig wedi effeithio ar y gallu i fynd i'r afael â nhw yn llawn. Yn benodol:

- roedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan y PWU (amcanion 1 a 2), wedi symud o weithio gyda'r cynlluniau peilot er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar weithio gyda thîm Llywodraeth Cymru;

- roedd y cwmpas i gynnal astudiaeth ymchwil weithredu ar bob un o'r pedwar cynllun peilot wedi'i gyfyngu gan y gwaith treialu cyfyngedig (amcan 3);
- fe ddatblygwyd dull o asesu'r sefyllfa wrthffeithiol a grewyd gan gynlluniau peilot B ac C ond nid oedd modd ei ddefnyddio o ganlyniad i'r gwaith treialu cyfyngedig.

2.3. O ganlyniad, er y bu modd i'r ymchwil weithredu hysbysu gwerthusiad o broses, roedd y peilota cyfyngedig wedi cyfyngu ar gwmpas yr ymchwil weithredu i hysbysu gwerthusiad o effaith.

3. Ymagwedd a dulliau gweithredu

Cyflwyniad

- 3.1. Mae ymchwil weithredu yn arbennig o briodol lle bo prosiect peilot arloesol yn cael ei werthuso a lle bo angen cyfoeth o ddata ar yr hyn sydd yn gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio er mwyn hysbysu'r broses o ddatblygu modelau a pholisi (Trysorlys EM, 2011).
- 3.2. Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn tynnu ar dair ffynhonnell allweddol o ddata:
- adolygiad desg o ddogfennaeth prosiect, megis cytundebau amrywio grantiau ac adroddiadau cynnydd awdurdodau lleol;
 - arsylwi ar y broses, er enghraifft drwy fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau;
 - arolwg o randdeiliaid yn defnyddio holiadur hunan-lenwi (67 o ymatebion) a chyfweiliadau â rhanddeiliaid (a drafodir isod).
- 3.3. Dyma'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld:
- rhieni a gofawyr plant a phobl ifanc ag ALN a oedd yn cymryd rhan yn y cynlluniau peilot (rh=5);
 - aelodau o Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru;
 - swyddogion arweiniol a/neu reolwyr prosiect y cynlluniau peilot o bob un o'r prosiectau peilot (rh=8);
 - pobl broffesiynol (rh=12) a oedd yn ymwneud â'r cynlluniau peilot, gan gynnwys SENCos, penaethiaid, therapyddion galwedigaethol, ffysiotherapyddion, a staff awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol a oedd yn rhan o'r gwaith o dreilau'r broses cynlluniau datblygu unigol.

4. Rhoi'r Cyfnod Treialu Cadarn ar Waith

Treialu'r gwahanol elfennau

- 4.1 Mae Tablau 4.1 a 4.2 yn dangos sefyllfa 'gychwynnol' a 'therfynol' bob un o'r awdurdodau lleol mewn perthynas â threialu elfennau allweddol y cynlluniau peilot. Mae'n dangos pa mor gyfyngedig fu'r treialu ar yr offeryn ar-lein a pha mor fratiog fu'r treialu ar y system sicrhau ansawdd, yn enwedig mewn perthynas â'r dulliau mesur canlyniadau a'r blwch offer capasiti. Mae Tabl 4.2 hefyd yn dangos cyfanswm yr IDP a gadodd eu creu yn ystod y cyfnod treialu cadarn (175), sy'n dangos bod y cynlluniau peilot wedi methu cyrraedd y targed o dreialu'r IDP gyda 320 o blant a phobl ifanc.
- 4.2 Roedd amcanion y cyfnod treialu cadarn yn rhy uchelgeisiol. Ni fu'r gwaith treialu mor gynhwysfawr â'r bwriad gwreiddiol ac mae hyn, ynghyd â heriau a oedd yn gysylltiedig ag elfennau unigol, wedi'i gwneud yn anodd treialu'r gwahanol elfennau fel rhan o ymagwedd 'system gyfan'. O ganlyniad, nid oedd llawer o'r bobl broffesiynol a gafodd eu cyfweld wedi cysylltu'r broses IDP ag elfennau eraill megis y system sicrhau ansawdd.

Tabl 4.1 Crynodeb o sefyllfa gychwynol bob un o'r awdurdodau yn y cyfnod treialu cadarn

Elfen i'w threialu	Profiad o ddefnyddio'r broses gynllunio IDP	Profiad o ddefnyddio'r offeryn ar-lein	Profiad o'r map darpariaeth QAS	Profiad o ddulliau mesur canlyniadau QAS	Profiad o flwch offer capasiti QAS
Awdurdod Lleol					
Pen-y-bont ar Ogwr	Do – cynllun John/Jenny	Naddo	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Caerffili	Naddo	Naddo	Do – ym mhob ysgol	Do – mewn rhai ysgolion	Do – mewn rhai ysgolion
Caerdydd	Naddo	Naddo	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Sir Gaerfyrddin	Do – fersiwn papur o <i>Planning Together</i>	Naddo	Naddo	Naddo	Naddo
Sir y Fflint	Naddo	Naddo	Do – mewn 6 ysgol yn Sir y Flint a 2 ysgol yn Wrecsam	Do – mewn 6 ysgol yn Sir y Flint a 2 ysgol yn Wrecsam	Do – mewn 6 ysgol yn Sir y Flint a 2 ysgol yn Wrecsam
Casnewydd	Naddo	Naddo	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Sir Benfro	Do – cynllun John/Jenny	Do – cynllun John/Jenny	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Torfaen	Do - <i>Planning Together</i>	Do – <i>Planning Together</i>	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo

Ffynhonnell: cyfweiliadau â'r cynlluniau peilot ac adroddiadau'r prosiectau

Tabl 4.2 Crynodeb o sefyllfa derfynol bob un o'r awdurdodau lleol yn y cyfnod treialu cadarn (h.y. mis Awst 2012)

Elfen i'w threialu	Profiad o ddefnyddio'r broses gynllunio IDP	Profiad o ddefnyddio'r offeryn ar-lein	Cyfanswm yr IDPs a grewyd yn ystod y cyfnod treialu cadarn	Profiad o'r map darpariaeth QAS	Profiad o ddulliau mesur canlyniadau QAS	Profiad o flwch offer capasiti QAS
Pen-y-bont ar Ogwr	Do	Naddo	43	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Caerffili	Do	Naddo	52*	Do – ym mhob ysgol	Do – mewn rhai ysgolion	Do – mewn rhai ysgolion
Caerdydd	Do	Naddo	10	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Sir Gaerfyrddin	Do	Naddo	16	Naddo	Naddo	Naddo
Sir y Fflint	Do	Naddo	36	Do	Do – mewn 6 ysgol yn Sir y Flint a 2 ysgol yn Wrecsam	Do – mewn 6 ysgol yn Sir y Flint a 2 ysgol yn Wrecsam
Casnewydd	Do	Naddo	*	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Sir Benfro	Do	Do	5	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo
Torfaen	Do	Do	13	Do – mewn rhai ysgolion	Naddo	Naddo

* Mae ffigurau Caerdydd hefyd yn cynnwys Casnewydd

Ffynhonnell: cyfweiliadau â'r cynlluniau peilot ac adroddiadau'r prosiectau

Rheoli a Gweithredu'r cynlluniau peilot

- 4.3. Roedd y rhanddeiliaid drwyddynt draw wedi croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru at gynnal y cynlluniau peilot. Serch hyn, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n rhwystredig ynghylch yr ansicrwydd am gyfeiriad neu ddatblygiad y cynlluniau peilot yn y dyfodol, ar ôl i'r cyfnod datblygu ddod i ben ac ynghylch yr egwyl rhwng diwedd y cyfnod datblygu a dechrau'r cyfnod treialu.
- 4.4. Yn ystod y cyfnod treialu cadarn, symudodd y gwaith o fonitro'r cynlluniau peilot o fod yn ymagwedd naratif a oedd yn canolbwyntio ar nodi materion, i ddull o weithio mwy meintiol, a oedd yn canolbwyntio ar dargedau. Roedd y newid hwn wedi golygu bod gan y tîm prosiect ddarlun mwy eglur o gynnydd o ran cyflwyno'r IDPs. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r cyfnod datblygu, roedd yr IDP yn dominyddu'r broses. Yn absenoldeb targedau meintiol clir ar gyfer elfennau eraill y prosiect, yn aml roedd hi'n anodd pennu faint o gynnydd yn union wnaed wrth gyflwyno'r elfennau hyn yn ystod y cyfnod treialu cadarn.
- 4.5. Roedd y cynlluniau peilot wedi wynebu nifer o heriau sylweddol ac roedd y rhanddeiliaid yn anghytuno am sut y dylid mynd ati i'w datrys. Dywedodd y cynlluniau peilot yn gyson eu bod yn methu â'u datrys eu hunain gan nad oedd ganddynt yr 'awdurdod llinell' i fynnu bod pobl eraill yn gwneud pethau, ac roeddent yn teimlo bod angen i faterion gael eu datrys gan awdurdod uwch, sef Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, roedd rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru yn dweud yn gyson bod cyfrifoldeb ar yr awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac nad oedd modd iddynt hwythau orfodi'r awdurdodau lleol i weithredu. Y broblem elfennol i Lywodraeth Cymru ar y naill law, a Swyddogion Arweiniol a Rheolwyr Prosiect y cynlluniau peilot ar y llall, oedd nad oedd modd i'r naill na'r llall fynd ati i ddatrys yr heriau hyn yn uniongyrchol, a'u bod yn hytrach yn gorfod 'annog' eraill i weithredu. O ganlyniad, er bod Llywodraeth Cymru a'r cynlluniau peilot yn cydnabod arwyddocâd y problemau ac am eu datrys, roedd yn y lle cyntaf ddiffyg 'perchnogaeth' o'r problemau. Fe gymrodd amser i egluro pwy oedd yn gyfrifol am eu datrys ac yn aml roedd hi'n anodd dwyn perswâd ar bobl nad oedd yn

ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau i fynd i'r afael â materion a oedd yn rhwystro neu'n atal gwaith y cynlluniau peilot.

4.6. Dyma'r materion allweddol:

- rhannu data;
- diogelu a rheoli data;
- datblygiadau ar lefel consortia addysgol, yn arbennig mewn perthynas â systemau olrhain disgyblion a oedd yn dyblygu rhai elfennau o'r map darpariaeth.

4.7. Roedd graddau'r cydweithio mewn partneriaeth yn yr ardaloedd peilot yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, roedd yna broblemau wrth ymgysylltu â gwasanaethau statudol eraill megis gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, ac mewn rhai ardaloedd, roedd hi'n anodd ymgysylltu â safleoedd dysgu, megis ysgolion.

4.8. Roedd y gwerthusiad hefyd yn nodi enghreifftiau o ddryswch neu ansicrwydd ar ran y rheiny a oedd yn ymwneud â'r gwaith peilota. Er enghraifft, yn aml, roedd yna ddiffyg eglurdeb am ba blant a phobl ifanc a oedd yn debygol o fod â hawl i gael IDP (o dan y diwygiadau arfaethedig).

5. Tystiolaeth o'r cyfnod treialu cadarn


Cyflwyniad

5.1. Mae'r casgliadau o'r dadansoddiad o'r dystiolaeth wedi'u crynhoi yn ffigurau 1 a 2.


Allwedd ar gyfer ffigurau 1 a 2.

Beth sydd yn gweithio'n dda
Beth sydd yn gweithio'n dda weithiau ond nad yw mor dda ar adegau eraill
Beth nad yw'n gweithio'n dda
Beth sy'n anhysbys

Ffigur 1 Crynodeb o'r dystiolaeth o gyfnod treialu cadarn y broses IDP



Ffigur 2 Crynodeb o'r dystiolaeth o'r cyfnod treialu cadarn ar y system sicrhau ansawdd



6. Casgliadau ac argymhellion

Tystiolaeth o'r ymchwil weithredu

6.1. Ar y cyfan, roedd y cyfnod treialu cadarn yn effeithiol fel darn o ymchwil weithredu. Bu'n fodd i fodelau gael eu profi a'u datblygu a darparodd dystiolaeth werthfawr ar yr hyn sydd yn gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio gystal. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu:

- cefnogaeth hynod gref i egwyddorion dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn (sydd wrth wraidd y broses IDP). Serch hyn, mae'r gwaith treialu wedi amlygu amrywiaeth o faterion a phryderon na aethpwyd i'r afael â hwy'n gyfan gwbl yn ystod y cyfnod treialu cadarn. Mae'r prif faterion a phryderon yn ymwneud ag elfen ar-lein y broses IDP a theimlad cryf bod y gwaith yn ychwanegu at lwythi gwaith cyfredol, yn hytrach na'i fod yn disodli rhai elfennau o'r llwyth gwaith cyfredol. Nid yw'n glir i ba raddau y mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn cael ei gynnal ar lefel arwynebol (e.e. canolbwyntio ar yr hyn yr ydym yn ei hoffi neu ei edmygu am John/Jenny) yn hytrach nag ar y lefel ddyfnach a fwriadwyd. Y bwriad oedd nodi ym mha ffordd y dylai'r gwasanaethau/cefnogaeth gael ei darparu er mwyn diwallu anghenion y plentyn/person ifanc;
- cefnogaeth gref i egwyddorion mapio darpariaeth, ac i raddau llai (yn bennaf o achos diffyg tystiolaeth), hunan werthuso (gan ddefnyddio'r dulliau mesur capasiti) a mesur canlyniadau fel rhan o system sicrhau ansawdd. Serch hyn, mae'r treialu yn dangos rhywfaint o amwysedd ynghylch y modelau a ddatblygwyd (gydag, er enghraifft, ysgolion yn defnyddio dulliau amgen);
- cefnogaeth i'r egwyddor o wella gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, ond ni cheir llawer o dystiolaeth fod hyn yn digwydd.

Tensiynau rhwng theori ac ymarfer

- 6.2. Mae'r dystiolaeth ar y gefnogaeth ar gyfer y gwahanol elfennau a gafodd eu treialu yn dangos tensiwn rhwng dyheadau Llywodraeth Cymru a'r cynlluniau peilot ac agweddau a phrofiadau'r rheini a oedd yn gyfrifol am eu gwireddu. Er bod y rheiny ar lawr gwlad yn cefnogi'r egwyddorion, roeddent yn poeni am sut y byddai - neu sut y gallai - weithio yn ymarferol. O ganlyniad, roedd rhai rhanddeiliaid yn awyddus i gyfyngu ar gwmpas y diwygiadau arfaethedig.
- 6.3. Roedd tensiwn arall rhwng dyheadau Llywodraeth Cymru a'r cynlluniau peilot a'r rheiny a oedd yn gyfrifol am eu gwireddu yn ymwneud ag i ba raddau yr oedd angen rhagnodi. Roedd y cynlluniau peilot yn gweld rhagnodi fel ffordd o fynd i'r afael ag anghysondebau mewn ansawdd a darpariaeth a oedd yn fwgan yn y system gyfredol. Fodd bynnag, mae'r rheiny a oedd yn gyfrifol am y ddarpariaeth wedi rhoi'r modelau ar waith mewn gwahanol ffyrdd, gan ddatblygu gwahanol ffyrdd o wneud iddynt 'weithio'. Drwy fod yn hyblyg, bu modd dod o hyd i dulliau anffurfiol o ddatrys problemau a oedd yn golygu bod y systemau yn gweithio, ac yn gweithio gyda'i gilydd, yn ddigon da.

Integreiddio a'r potensial i symleiddio cynlluniau a phrosesau

- 6.4. Mae tystiolaeth o'r cyfnod treialu cadarn yn dangos yr erys diffyg eglurdeb am sut y dylid integreiddio gwahanol elfennau'r cynlluniau peilot – y broses IDP, y System Sicrhau Ansawdd a rôl yr ALNCo.
- 6.5. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y broses yn cynnig y cyfle i dynnu ynghyd gynlluniau eraill sy'n gysylltiedig ag unigolyn. Mae'r dystiolaeth o'r cynlluniau peilot hyd yma yn dangos bod rhai rhanddeiliaid o'r farn bod yr IDP yn broses baralel sy'n gweithredu ochr yn ochr â phrosesau cyfredol, yn hytrach nag yn lle'r prosesau hyn. Yn rhannol, roedd hyn yn anochel gan fod y broses beilot yn gorfod cael ei chynnal ar yr un pryd â phrosesau cyfredol. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau peilot hefyd yn dangos y gall fod yn anodd tynnu gwahanol gynlluniau ynghyd (ac felly lleihau cynllunio paralel). O ystyried y

gefnogaeth eang ar gyfer cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn (PCP), mae yna gwmpas i ddefnyddio'r dull hwn o gynllunio lle bynnag y bo'n bosibl mewn prosesau cynllunio cyfredol. Gallai hyn helpu i symleiddio prosesau a lleihau cynllunio paralel a'i effaith, gan y byddai'r broses IDP yn dod yn un o blith nifer o brosesau yn rhannu'r dull PCP, er mwyn llunio gwahanol gynlluniau.

Yr angen am ragor o waith treialu a datblygu

6.6. Ar y cyfan roedd y cyfnod treialu cadarn yn effeithiol fel darn o ymchwil weithredu. Serch hyn, o edrych yn ôl, roedd amcanion y gwaith treialu yn rhy uchelgeisiol. O ganlyniad, roedd y treialu cyfyngedig wedi golygu bod y dystiolaeth ar effaith ac effeithiolrwydd hefyd yn gyfyngedig. Mae'r cyfnod treialu estynedig sy'n digwydd ar hyn o bryd yn angenrheidiol felly.

Argymhellion

6.7. Mae gwersi pwysig wedi deillio o'r cyfnod treialu cadarn ar gyfer y cyfnod treialu estynedig. Er enghraifft, mae'n dangos yr angen i:

- sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn targedau meintiol (tebyg i werthusiad o ganlyniadau) ac yn cael ei gydbwysu â monitro materion a heriau (tebyg i werthusiad o broses);
- aseinio cyfrifoldeb clir ar gyfer mynd i'r afael â materion a strwythur clir ar gyfer dyrchafu materion na ellir eu datrys i lefel uwch;
- gweledigaeth gytbwys – gallu i weld y darlun mawr (tebyg i feddwl trwy systemau) gyda sylw i fanylder (tebyg i reoli prosiectau).

6.8. Mae'r gwersi hyn o'r cyfnod treialu cadarn wedi galluogi'r tîm gwerthuso i nodi nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau peilot ar gyfer bwrw ymlaen â chyfnod nesaf y cynlluniau peilot a'r agenda diwygio ALN yn ehangach:

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- Ystyried sut y gellir cael mynediad at arbenigedd a gwybodaeth ychwanegol am sicrwydd data, rheoli a rhannu gwybodaeth, er mwyn helpu i ddatrys y problemau y mae'r cynlluniau peilot wedi'u cael.
- Ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol peilot i sicrhau bod y diwygiadau ALN arfaethedig yn gysylltiedig â gweithgarwch gwella ysgolion ar lefel consortia.
- Sicrhau bod yna eglurdeb a chytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol peilot ar y cyfrifoldeb a'r broses ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau neu heriau i'r gwaith treialu, a'u datrys.
- Ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol peilot i sicrhau bod gwasanaethau eraill, megis gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn ymgysylltu ar lefel y peilot ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- Ystyried yr achos dros gyflwyno'r modelau fesul dipyn yn y dyfodol.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol peilot:

- Ystyried datblygu canllawiau pellach ar sut y dylid integreiddio'r gwahanol elfennau sy'n cael eu peilota – y broses IDP, y System Sicrhau Ansawdd a rôl yr ALNCo;
- Ystyried datblygu canllawiau pellach ar sut y gall – a sut y dylai – y broses IDP weithio gyda phrosesau a chynlluniau eraill. Gallai hyn gynnwys:
 - canolbwyntio ar rannu gwybodaeth ymysg cynlluniau peilot ac unigolion;
 - datblygu canllawiau ac enghreifftiau o arfer da;
 - mapio'r wybodaeth sydd ei hangen ar wahanol gynlluniau a phrosesau y gallai'r broses IDP gyfrannu atynt, yn erbyn yr wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd drwy'r broses IDP.

- Ystyried ffocws ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn fel proses gynllunio gyffredin neu unedig a all gyfrannu at amrywiaeth o wahanol gynlluniau, gan gynnwys yr IDP.
- Ystyried y cydbwysedd rhwng yr angen am ragnodi – megis pennu proses a chanlyniadau (er mwyn hyrwyddo cysondeb) a hyblygrwydd (er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio i'r rheiny sy'n gyfrifol am ei chyflwyno). Er enghraifft, fe allai fod yn bosibl i bennu'r data y dylai safleoedd megis ysgolion ei gasglu, heb fynnu eu bod yn defnyddio model penodol (megis y map darpariaeth).
- Ystyried sut y gellid mynd ati i ddatblygu, integreiddio a threialu tri llinyn y system sicrhau ansawdd (y map darpariaeth, y dulliau mesur canlyniadau a'r dulliau mesur capasiti).
- Sicrhau bod yna werthusiad cadarn o'r cyfnod profi estynedig, gan ganolbwyntio ar y broses a'r effaith fel ei gilydd.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol peilot:

- Adolygu'r briffio a chyfathrebu cychwynnol gyda rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith peilota, o ganlyniad i'r ansicrwydd a'r dryswch a geir weithiau ymysg rhanddeiliaid. Os oes angen, mynd ati i ddatblygu a gwella'r elfen hon.
- Adolygu arweinyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer y cynlluniau peilot ar draws gwasanaethau awdurdodau lleol ac, os oes angen, cymryd camau i'w hatgyfnerthu.
- Adolygu'r gwaith o fonitro cynnydd, gan dreialu pob elfen o'r peilot, ac atgyfnerthu'r prosesau monitro, os oes angen.

7. Llyfryddiaeth

Trysorlys EM (2011). *The Magenta Book: Guidance for Evaluation*. Ar gael ar-lein drwy <http://www.hm-treasury.gov.uk/magentabook>

Holtom, D. a Lloyd-Jones, S., (2012), *Gwerthusiad o gyfnod datblygu'r cynlluniau peilot ALN*. Ar gael ar-lein drwy:
<http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/additionallerningneedsfinal/?skip=1&lang=cy>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2006), *Inclusion and Pupil Support, Cyfnodolyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif. 47/2006*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael ar-lein drwy:
<http://wales.gov.uk/pubs/circulars/2006/english/nafwc47-06-e?lang=en>